Dewis
Fy NghHTh

Trowch drosodd am y Saesneg
Please turn over for English

Ymgeiswyr ar Gyfer Ardal Heddlu De Cymru

Ar 6ed Mai byddwch yn medru pleidleisio ar gyfer eich comisiynydd heddlu a throseddu.

Darganfyddwch pwy yw eich ymgeiswyr lleol a sut i bleidleisio.

Cynnwys

Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu 02

Mike Baker
Independent/Annibynnol 04

Steve Gallagher
Conservative Candidate – More Police, Safer Streets 06

Dr Gail John
Propel: Wales Needs Champions/Propel: Mae Cymru Angen Pencampwyr 08

Callum James Littlemore
Welsh Liberal Democrats – Put Recovery First/ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Adfywio yw`r flaenoriaeth 10

Nadine Rachel Marshall
Plaid Cymru – The Party of Wales 12

Alun Edward Michael
Labour and Co-operative Party/Llafur a'r Blaid Gydweithredol 14

Datganiad fesul Ardal Heddlu Swyddog Canlyniadau ar gyfer De Cymru 16

Os bydd ymgeisydd heb ddarparu datganiad Cymraeg, bydd ei ddatganiad Saesneg yn cael ei gynnwys yn lle hynny

Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu

Ar 6ed Mai, byddwch yn gallu pleidleisio dros eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh). Rôl y CHTh yw bod yn llais y bobl a dwyn yr heddlu i gyfrif. Bydd etholiadau'n cael eu cynnal yng Nghymru a Lloegr. Yn Llundain, Manceinion Fwyaf a Gorllewin Swydd Efrog, bydd etholiadau ar yr un pryd ar gyfer Meiri sy'n arfer swyddogaethau CHTh.

Mae CHTh yn gyfrifol am gyfanrwydd plismona yn ardal eu llu a'u nod yw lleihau troseddu a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon.

Bydd 39 CHTh yn cael eu hethol ledled Cymru a Lloegr, y mae 4 ohonynt hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r awdurdod tân ac achub ar gyfer eu hardal ac fe'u gelwir yn Gomisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu (CHTTh) – mae'r CHTTh hyn i'w cael yn Essex, Swydd Stafford, Gogledd Swydd Efrog, a Swydd Northampton). Hefyd bydd 3 Maer â swyddogaethau CHTh yn cael eu hethol yn Llundain, Manceinion Fwyaf a Gorllewin Swydd Efrog.

Mae CHTh yn cael eu hethol gennych chi a'u nod yw lleihau troseddu a dwyn yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd. Mae CHTh yn dod â llais cyhoeddus i blismona, ac maent yn gwneud hyn trwy:

- ymgysylltu â'r cyhoedd a dioddefwyr troseddau i helpu i osod blaenoriaethau plismona'r ardal ac ymgynghori ar eu cynlluniau Heddlu a Throseddu;
- sicrhau bod cyllideb yr heddlu'n cael ei gwario lle mae o'r pwys mwyaf; a
- penodi'r Prif Gwnstabl, gan eu dwyn i gyfrif am gyflawni eu hamcanion ac, os oes angen, eu diswyddo.

Gweithio gydag eraill

Mae CHTh, CHTTh a Meiri sy'n arfer swyddogaethau CHTh hefyd yn gweithio gyda'ch cyngor a sefydliadau eraill i hyrwyddo a galluogi gweithio cydgysylltiedig ar ddiogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol.

Nid yw'r CHTh, CHTTh na'r Maer sy'n ymarfer swyddogaethau CHTh yn 'rhedeg' yr heddlu na'r gwasanaeth tân. Mae Prif Gwnstabliaid a Phrif Swyddogion Tân yn annibynnol yn weithredol, ac maent yn gyfrifol am weithrediadau'r heddlu o ddydd i ddydd, ond maent yn atebol i'r cyhoedd trwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae CHTh, CHTTh a Meiri sy'n arfer swyddogaethau CHTh yn unigolion sengl, wedi'u hethol yn uniongyrchol, gan sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i gydweithredu a chraffu mwy effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus.

Maent yn sicrhau bod cyfraniad plismona effeithiol i drefniadau partneriaeth genedlaethol i amddiffyn y cyhoedd rhag bygythiadau cenedlaethol a thrawsffiniol eraill.

Cynrychioli'r gymuned gyfan

Mae'n ofynnol i CHTh, CHTh a Meiri Awdurdodau Cyfun sy'n arfer swyddogaethau CHTh dyngu llw o ddidueddrwydd pan gânt eu hethol i'w swydd.

Cynlluniwyd y llw fel y gallant nodi'n gyhoeddus eu hymrwymiad i: wasanaethu'r holl bobl yn ardal eu heddlu; gweithredu â gonestrwydd a diwydrwydd; rhoi llais i'r cyhoedd; gweithredu â thryloywder fel y gellir eu dwyn i gyfrif yn effeithiol; a pheidio ag ymyrryd ag annibyniaeth weithredol swyddogion heddlu.

Dewch o hyd i'ch ymgeisydd

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ymgeiswyr sy'n sefyll i'w hethol yn ardal heddlu De Cymru. Gallwch hefyd archebu copi o'r llyfryn hwn yn y fformatau dilynol: print bras, braille a sain.

I roi eich archeb ewch i **www.dewisfynghhth.org.uk** neu ffonio **0808 196 2170**.

Ynglŷn â'ch pleidlais

Mae angen i chi gofrestru i allu pleidleisio.

Os nad ydych wedi cofrestru ewch i **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio** neu cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Os ydych wedi'ch cofrestru, ac yn gymwys i bleidleisio, gallwch naill ai bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, trwy'r post, neu drwy ddirprwy (gan ganiatáu i rywun rydych yn ymddiried ynddo/ynddi bleidleisio ar eich rhan).

Yn yr etholiad hwn gallwch bleidleisio dros ddewis cyntaf ac ail ddewis ymhlith y rhai rydych am iddynt ennill.

I gael rhagor o wybodaeth am eich pleidlais ac etholiadau eraill a gynhelir ar 6ed Mai ewch i **www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr**

Mike Baker

Independent/Annibynnol



Election statement:

For the last nine years we have had a commissioner leading South Wales Police. In that time, we have seen repeated cuts to the budget, repeated reductions in officer numbers (currently 600 officers).

The public have spoken, they want a police service that reflects their needs, they are concerned that the reduction of officers and stations has left the police in a dangerous position.

As a former Police Officer / Barrister / Solicitor / Commercial Mediator and a Member of the International Police Association.

I am currently a Director and Secretary of a small company.

I have the background, the skill and the expertise for the office of Police and Crime Commissioner.

I am independent of all political parties and self-funding.

The public want to become more involved in the way their communities are policed. We need to bring a more visible police presence. I have made useful connections with many local communities which will help in my future policing plan.

I will strive to: -

Ensure that we have a strong politically independent police force free to police our communities without fear or favour.

Address the financial constraints currently placed on the police in order to bring South Wales Police back to full strength

Give the police the support they need, to enable them to address anti-social behaviour.

Give our communities the support they need.

Divert our youngsters away from crime to prevent them becoming our criminals of the future.

It's time for change, the office of PCC must be refreshed

I am your INDEPENDENT Candidate for the office of Police and Crime Commissioner for the South Wales Police.

Together we will make the difference

LET ME TRY

Prepared by: Michael A Baker, Own Agent. Email: admin@mikeforcommissioner.co.uk

Steve Gallagher

Conservative Candidate – More Police, Safer Streets

Conservatives Ceidwadwyr

Election statement:

Steve Gallagher has considerable experience in public service having been a serving police officer for 32 years reaching the rank of Chief Inspector and serving throughout South Wales.

After leaving the police he started a small business supporting others as a consultant advisor. He still runs this business which took him to London for several years becoming heavily involved in London Olympics, the planning and support of the Olympic Park and the opening and closing ceremonies. Also, working with Swansea University supporting the students and then assisting long term unemployed into work. He is currently a Councillor with City and County of Swansea.

Steve believes we should all be able to live work and play safely where we choose to live, and will challenge the police and community to work together but also supporting the police to allow them to carry out the role they are charged to do.

His key priorities are:

Increase local policing

- Accessible and visible policing and recruitment of officers
- Increase confidence and ease in reporting crime and anti-social behaviour
- Work with partners to support our business and prevent escalating or linked crime
- Tackle business crime and its links to violence and drugs and travelling criminals

Continued disruption of organised crime

- Tackling serious violence and knife crime
- Tackling drugs and county lines and links with business crime and cybercrime

Supporting the Community, the vulnerable and victims

- Address domestic abuse, stalking and harassment
- Support victims and their families
- Continue to support victims of rape and sexual abuse and ensure ease of report and response
- Safeguard the vulnerable and children in our society

This has been prepared by Christopher Kirkham (Election Agent) of The Welsh Conservative Party, Unit 5 Pro-copy Business Centre, Parc Ty Glas, Cardiff, CF14 5DU

Dr Gail John

Propel: Wales Needs Champions/Propel: Mae Cymru Angen Pencampwyr



Election statement:

My name is Dr Gail John and I am Propel's trauma informed Police Crime Commissioner (PCC) candidate. For over a decade, I have advocated for children and adults rights across the South Wales Police region, completing a doctorate which examined why Wales has the lowest educational results, poverty, suicide statistics and ACE (Adverse Childhood Experiences) outcomes in UK. The consistently high social poverty statistics, along with lived stories of pain signifies that a massive justice problem exists in the South Wales region.

This justice problem has been ignored and serious failures have been left unchallenged for decades. After connecting to people in psychiatric hospitals, prison, homeless outreaches, neurodivergent individuals failed by the education system, and those struggling with mental health and addictions, sexual abuse victims, exploitation and victims of trafficking and miscarriages of justice victims, I was invited into the family court arena by a judge to be a trauma informed expert witness. My reports pinpointed multiple systematic failings across public services in the South Wales Police region. I won a scholarship to study a Master's in Law Degree which taught me that the current Labour Welsh Government is violating the rule of law in their dealings with the Welsh public.

What I hope to achieve:

1. Eradicating systematic abusive practice out of South Wales Police and challenging all forms of collusion.
2. Ensuring the authentic preventative trauma informed practice through implementing early intervention and authentic harm reducing training across all multi-agencies in the region.
3. Restorative justice – righting all the wrongs including ensuring a proper independent investigation into Dai Morris' case including DNA testing outstanding evidence, where national policing standards were not followed by South Wales Police.

This form has been prepared by Gail John, 27 Pencaecrwn Road, Penyrheol, Swansea SA4 4FU.

Callum James Littlemore

Welsh Liberal Democrats – Put Recovery First/Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Adfywio yw`r flaenoriaeth

Welsh Lib Dems
Dem Rhydd Cymru

Datganiad etholiadol:

Dylai pawb allu byw eu bywydau heb ofni gwahaniaethu neu gamdriniaeth. Yn anfoddus, mae troseddau casineb ar gynnydd, ac mae gormod o bobl yn methu teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau erbyn hyn.

Mae pobl yn erfyn am newid ac maent yn daer am weld plismona mwy gweladwy, yn enwedig mewn mannau sy'n aml yn teimlo'u bod wedi'u hanghofio.

Byddaf yn brwydro i gadw ein cymunedau yn ddiogel trwy gyflwyno mesurau sydd wedi ennill eu plwyf a chydweithio â chymunedau lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau aildroseddu.

Os caf fy ethol ar 6 Mai, dyma fydd fy mhrif flaenoriaethau:

- Plismona mwy gweladwy i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig mewn cymunedau sy'n teimlo ar ei hôl hi o ran y presenoldeb plismona, trwy recriwtio mwy o PCSOs a swyddogion yr heddlu.
- Cynorthwyo dioddefwyr a thystion troseddau â chymorth prydlon o ansawdd uchel i helpu i liniaru niwed ac ailadeiladu bywydau.

- Atal y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau ymwthiol ar y diwrnod cyntaf.
- Cyfiawnder mwy adferol a dedfrydau cymunedol am droseddau llai difrifol.
- Cyfeirio adnoddau at dargedu masnachu cyffuriau yn hytrach na throseddau meddu ar gyffuriau.
- Mynd i'r afael â throseddau casineb, yn cynnwys ei gwneud hi'n haws i roi gwybod am ddigwyddiadau a buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth.
- Lleihau aildroseddu trwy gydweithio â chyflogwyr a gwasanaethau addysg ac iechyd i ailintegreiddio cyn-droseddwyr yn y gymdeithas trwy fynediad at dai, swyddi, prentisiaethau, gwaith gwirfoddol a hyfforddiant.
- Gwrthwynebu ymdrechion didrugaredd a pheryglus i orfodi cymunedau ar y cyrion i wynebu hyd yn oed rhagor o blismona anghyfartal.
- Cyhoeddi strategaeth ynghylch mynd i'r afael ag anghyfartaledd hiliol yn y system cyfiawnder troseddol.
- Gwrthwynebu ymdrechion i leihau ein hawl i brotestio.

Cyhoeddwyd gan Claire Halliwell ar ran Callum Littlemore (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru), 15th Floor, Brunel House, 2 Fitzalan Road, Cardiff, CF24 0EB.

Nadine Rachel Marshall

Plaid Cymru – The Party of Wales

Datganiad etholiadol:

Nid eich ymgeisydd arferol ar gyfer Swydd Comisiynydd yr Heddlu yw Nadine Marshall. Dyna yw ei nerth a dyna pam ei bod hi'n ddewis rhagorol ar gyfer y swydd. Daw mewn i'r ras fel person a chanddi ddealltwriaeth sylweddoli ac arwyddocaol o'r effaith mae trosedd yn ei gael ar y dioddefwyr.

Nid yw pob gwleidydd, cyn-heddwas na chyfreithiwr yn gallu gweld y darlun mawr. Dydyn nhw ddim o hyd yn sylweddoli pa gamau sydd angen eu cymryd i wneud ein cymunedau'n fwy diogel, ac yn llefydd gwell i fagu ein plant.

Mae Nadine wedi profi ei bod yn gallu herio'r sefydliad a chywiro cam. Ei huchelgais yw gwella De Cymru ar gyfer pob cymuned drwy dynnu'r System Cyfiawnder Troseddol ynghyd i weithio'n fwy effeithiol ac i ddangos sut gellir defnyddio'r drydedd sector i wella ein hamodau byw a gwaith. Nid yw ei huchelgais dros lesiant eraill wedi ei gyfyngu gan yr hyn mae pobl eraill yn dweud sy'n bosibl.

Ni fydd Nadine yn dibynnu ar ymadroddion gweigion gan nad yw hi am wneud addewidion diystyr. Bydd hi'n blaenoriaethu dioddefwyr trosedd; mae hi am i droseddwyr posib i wybod y byddan nhw'n cael eu dal a'u cosbi. Yn fwy na hynny, bwriad

Nadine yw gweithio'n fwy caled i ddal y bobl ifanc sy'n cael eu tynnu mewn i droseddi a'u gwyro nhw i ffwrdd o'r bywyd hwnnw.

Bydd Nadine yn siarad dros gymunedau ond fe fydd hi hefyd yn siarad gyda'r cymunedau er mwyn deall pob gwahanol fater ar draws De Cymru. Mae troseddau yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyffuriau yn bla ar ein cymdeithas a rhaid mynd i'r afael â nhw'n well. Mae angen arloesedd ar ein cymunedau, meddwl newydd ac uchelgais mwy eang na chael y gorau allan o'n heddlu yn unig.

Paratowyd gan Dennis Clarke (asiant etholiadol) yn Nhŷ Gwynfor, Cwrt Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4AL

Alun Edward Michael

Labour and Co-operative Party/Llafur a'r Blaid Gydweithredol

Datganiad etholiadol:

Rwyf yn benderfynol o sicrhau mai De Cymru yw'r lle gorau i fyw a gweithio, ar ôl dangos yr ymrwymiad a'r arweinyddiaeth i sicrhau bod gan Dde Cymru y gwasanaeth heddlu gorau posibl tra'n atal troseddu a niwed lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Ein gwasanaeth heddlu ni yw un o'r rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr – er gwaethaf toriadau sylweddol i Grant yr Heddlu gan Lywodraethau Ceidwadol olynol yn San Steffan. Rwyf wedi diogelu plismona'r gymdogaeth – gan fanteisio i'r eithaf ar y PCSO ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Llafur Cymru – tra'n arwain arloesedd wrth fynd i'r afael ag achosion troseddu, fel camddefnyddio sylweddau, trawma a thrais yn ystod plentyndod.

Mae cam-drin a thrais domestig yn niweidio cymunedau – felly yn ogystal â chynorthwyo dioddefwyr, rwyf wedi buddsoddi mewn herio tramgwyddwyr trwy raglen Drive, sydd yn lleihau trais a niwed mewn teuluoedd.

Rwyf wedi datblygu tîm cryf ac wedi sicrhau bod gan ein heddlu yr adnoddau sydd eu hangen arnynt. Rwyf yn benderfynol o gynyddu ein gwaith ataliaeth ac ymyrraeth gynnar i gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

Cydweithredu yw'r elfen hanfodol – felly rwyf yn gwrando ar safbwyntiau pobl, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni yn y ffordd orau i'n cymunedau. Mae ein swyddogion a'n PCSO wedi gweithio gyda phobl ar draws De Cymru trwy gydol COVID-19, ac rwyf wedi gweithio gyda Gweinidogion Llafur Cymru, Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Gwirfoddol – i gynnal plismona lleol tra'n bodloni galw cynyddol.

Rwyf yn gweithio'n galed i ymgysylltu a bodloni anghenion ein holl gymunedau amrywiol. Rwyf yn gweithio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau bod troseddwyr yn dod o flaen eu gwell mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

Mae gennyf enw da yn cyflawni, rwyf yn angerddol dros atal troseddu a chynyddu'r gwaith gyda'r tîm arwain yr wyf wedi ei sefydlu. Rwyf eisiau i bob cymuned yn Ne Cymru fod yn ddiogel.

Paratowyd y ffurflen hon gan Stewart Owadally, Asiant Etholiad, Temple Court, 13A Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HA.

Datganiad fesul Ardal Heddlu Swyddog Canlyniadau ar gyfer De Cymru

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymgeiswyr hynny (os yw'r wybodaeth ar gael) a rhagor o wybodaeth ddefnyddiol i bleidleiswyr. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw'r wybodaeth a roddir amdano neu amdani, ac efallai na fydd yn adlewyrchu fy marn i neu farn y cyngor.

Fel Swyddog Canlyniadau yr Ardal Heddlu rwy'n gyfrifol am gydgordio'r etholiad a chyhoeddi'r canlyniad yn De Cymru.

Cynhelir etholiadau ar gyfer Comisiwynwyr yr Heddlu a Throseddu yn De Cymru ar 6ed Mai 2021; yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwnnw, wedi eu rhestru yn ôl eu cyfenw yn nhrefn yr wyddor (a'u trefn ar y papur pleidleisio), yw:

- BAKER, Mike – Independent/Annibynnol
- GALLAGHER, Steve – Conservative Candidate – More Police, Safer Streets
- JOHN, Dr Gail – Propel: Wales Needs Champions/Propel: Mae Cymru Angen Pencampwyr
- LITTLEMORE, Callum James – Welsh Liberal Democrats – Put Recovery First/Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Adfywio yw`r flaenoriaeth
- MARSHALL, Nadine Rachel – Plaid Cymru – The Party of Wales
- MICHAEL, Alun Edward – Labour and Co-operative Party/Llafur a'r Blaid Gydweithredol

Gallwch gysylltu â mi yn:

Debbie Marles
Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

PARO@valeofglamorgan.gov.uk
01446 709304
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/

Argraffir y llyfryn hwn ar bapur a ailgylchwyd 100%.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda hwn, cofiwch ei ailgylchu.

Cyhoeddwyd gan:

Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn ar gyfer Swyddfa'r Cabinet, 70 Whitehall, Llundain SW1A 2AS

PCC_SWAL_BKT